**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

# CYFARFOD CABINET: 21 MAWRTH 2024

## DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

## ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

**EITEM AGENDA: 6**

---

### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cabinet o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ehangu ac ailalinio darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2023 awdurdododd y Cabinet swyddogion i ymgynghori ar gynigion i gynyddu nifer y lleoedd i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol fel y nodir isod:

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle newydd ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

3. Awdurdododd y Cabinet hefyd swyddogion i ymgynghori ar gynigion i gynyddu nifer y lleoedd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth fel y nodir isod:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/ Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

**Materion**

4. Roedd y cyfnod ymgynghori ar gyfer cynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol ac ar gyfer cynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn rhedeg rhwng 20 Tachwedd 2023 a 19 Ionawr 2024.

5. Roedd y broses ymgynghori ar gyfer yr holl gynigion yn cynnwys:

- cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog a oedd yn nodi cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ar draws y ddinas, Aelodau etholedig, preswylwyr lleol a rhanddeiliaid eraill (mae copi o'r dogfennau ymgynghori yn Atodiad 1);
- cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog a oedd yn nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain ar gael yn Arabeg, Pwyleg a Bengaleg (mae copi o'r dogfennau cryno yn Atodiad 2);
- cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill ar gais;
- cynnig cyfarfodydd ymgynghori i bob Corff Llywodraethu trwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyrff Llywodraethu llawn neu grwpiau o lywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn (ceir nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- cynnig cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb â staff pan ofynnwyd amdanynt gan yr ysgol. Gofynnodd Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Coed Glas am gyfarfod â staff (ceir nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 4).
- cynnig cyfarfodydd ymgynghori i’r holl ysgolion trwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn (ceir nodiadau o’r cyfarfodydd hyn yn Atodiad 5);

- cynnig cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle esboniwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau. Cynhaliwyd cyfarfodydd lle roedd presenoldeb wedi'i drefnu ymlaen llaw (ceir nodiadau o'r cyfarfod yn Atodiad 6);
- sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (ceir cofnodion o'r sesiynau a gynhaliwyd yn Atodiad 7);
- cafodd llythyrau'n nodi manylion y cynigion a lle gellid dod o hyd i ragor o wybodaeth eu hanfon at breswylwyr a busnesau lleol yng nghyffiniau safleoedd yr ysgolion sy'n destun y newidiadau arfaethedig;
- ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- atodi slip ymateb i'r ymgynghoriad, i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, i'r dogfennau ymgynghori a'r dogfennau cryno;
- ffurflenni ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY Roedd y ffurflen ymateb hefyd ar gael yn Arabeg, Pwyleg a Bengaleg.

6. I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad at lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

7. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yng nghyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn, ac ar bapur neu'n electronig drwy'r sianeli priodol, wedi'u cofnodi.

8. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb trwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.

9. Mae'r manylion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys yr arolygon ehangach o randdeiliaid, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, safbwyntiau a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.

10. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolygon rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r rhai a godwyd yn yr ymatebion e-bost a gafwyd.

**Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y cynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol**

11. Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion gan gynnwys 9 ymateb ar-lein ac 11 o ymatebion e-bost.
12. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:

- Estyn
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Albany
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Baden Powell
- Pennaeth Ysgol Gynradd Baden Powell
- Pennaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Herbert Thompson
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Springwood

- Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch
- Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- RhAG - Rhieni Dros Addysg Gymraeg

13. Roedd ymateb Estyn yn nodi ei farn bod y cynnig yn debygol, fan lleiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

14. Mae copïau llawn o’r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 8.

15. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb trwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o’r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.

16. O'r naw ymateb i'r arolwg rhanddeiliaid ehangach, daeth tri ohonynt gan randdeiliaid a nododd eu hunain fel rhieni/gwarcheidwaid presennol, daeth tri gan aelodau staff a thri gan lywodraethwyr.

17. Mae modd gweld crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd gan bob rhanddeiliad, ac arfarniad o’r safbwyntiau a fynegwyd, yn Atodiad 9.

**Safbwyntiau a fynegwyd**

**Arolwg Rhanddeiliaid Ehangach**

18. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid ar y newidiadau arfaethedig fel y’u nodir ym mharagraff 2 ac a gyflwynwyd drwy’r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor, ffurflenni ymateb i’r ymgynghoriad a thrwy e-bost.

19. Roedd pob un o’r naw ymateb a gafwyd ar-lein yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

20. Roedd pob un o'r naw ymateb ar-lein yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig ar gyfer pob ysgol unigol, neu nid oedd ganddynt farn y naill ffordd na'r llall.

21. Roedd y rhesymau dros gefnogi’r cynnig yn cynnwys:

    - yr angen am ddarpariaeth iechyd a lles emosiynol ychwanegol i ateb y galw ledled y ddinas.
    - mae'r diffyg darpariaeth iechyd a lles emosiynol yn effeithio ar sut mae ysgolion yn defnyddio lle, ar les staff, ar gadw staff ac ar les disgyblion.
    - Mae ymyrraeth gynnar yn golygu bod modd diwallu anghenion y dysgwyr mwyaf agored i niwed hyn cyn i'w heriau gynyddu'n sylweddol.

22. Er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol, roedd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

    - mae angen ystyried y manylion wrth sefydlu a chynnal darpariaeth arbenigol o fewn ysgol brif ffrwd a'r goblygiadau i bob dysgwr, aelod o staff a rhieni.

- sut bydd staff yn cael eu cefnogi.
- ni fydd y newidiadau arfaethedig yn ddigon i ateb y galw am leoedd ar draws y ddinas.
- mae perygl o gynnydd pellach yn y galw yn sgil y pwysau ar gyllidebau ysgolion a rhewi cyllid ADY, ac ni all ysgolion wneud cais am gyllid ychwanegol sy'n arwain at lefelau is o staffio i reoli anghenion cymhleth.
- rhaid i'r ddarpariaeth fod yn addas at y diben ac yn gallu diwallu anghenion bechgyn a merched.
- mae angen gwell dealltwriaeth o effaith anghenion iechyd a lles emosiynol ar ddysgu er mwyn sicrhau arferion cadarnhaol cyson ar draws pob ysgol.
- lefelau staffio annigonol yn y dosbarth lles yn y Tyllgoed sy'n effeithio ar ddiogelu, gallu staff i ddarparu ymyriadau rhagweithiol i gefnogi datblygiad emosiynol ac academaidd, materion ag amseroedd gollwng a chasglu gyda phlant sy'n datreoleiddio, plant yn ymuno â'r dosbarth pan fydd angen amser i sefydlu ymddiriedaeth ac arferion, yr angen am gymorth dwys ym mhob maes o'r cwricwlwm, yr angen i amddiffyn plant sy'n datreoleiddio a'r plant eraill yn y dosbarth ar yr un pryd, yr amser sydd ei angen i gysylltu â gweithwyr proffesiynol allanol, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Meddygol a rhieni a'r amser sydd ei angen i baratoi/adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).
- dylai disgyblion barhau i gael eu cofrestru'n ddeuol drwy gydol eu cyfnod mewn darpariaeth arbenigol.
- nifer y plant y bwriedir eu derbyn i'r ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Lakeside. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnal dosbarth lles sydd â nifer derbyn o 16, fodd bynnag uchafswm y plant a dderbyniwyd hyd yma yw 12. Bydd derbyn mwy na 12 o blant yn effeithio ar gymarebau staffio, diogelu, llety, logisteg a chyfranogiad ehangach yr ysgol.
- yr angen am fuddsoddi mewn llety'r ganolfan adnoddau arbenigol i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas at y diben gan gynnwys mynediad at fannau awyr agored diogel.
- Barn Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch yw na all gefnogi ffurfioli'r dosbarth lles presennol yn yr ysgol na pharhau i'w gynnal.
- pa mor barod yw ysgolion yn ymarferol neu sut mae ysgolion yn mynd i gaffael yr arbenigedd i allu diwallu anghenion dysgwyr.
- yr angen am hyfforddiant parhaus arbenigol i'r sector Cymraeg.
- Rhaid i addysg Gymraeg ddod yn ddewis gwirioneddol, gyda rhieni'n gallu gweld yn glir beth yw'r cynnig i'w plentyn beth bynnag fo'r angen. Mae manylu ar lefel y cymorth sydd ar gael yn hanfodol.
- yr effaith ar y sector cyfrwng Cymraeg, e.e. plant yn gorfod teithio ymhellach i'w hysgol Gymraeg agosaf, y potensial i blant gael eu colli i addysg cyfrwng Saesneg, diffyg trafnidiaeth posibl, diffyg hyfforddiant arbenigol posibl yn yr ystod eang o feysydd yn y Gymraeg er mwyn gallu cynnal darpariaeth yn effeithiol.

**Cynrychiolaeth disgyblion**

23. Cyfarfu swyddogion â disgyblion yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd

Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ar-lein/wyneb yn wyneb i ofyn am eu barn ar y newidiadau arfaethedig.

24. Cafodd y sesiynau eu cynnal gan ddefnyddio rhaglen ryngweithiol ‘Mentimeter’ a oedd yn caniatáu i’r disgyblion roi eu barn/safbwyntiau gan ddefnyddio arolygon byw, cymylau geiriau, cwestiynau ac ati. Gellir gweld nodiadau o'r sesiynau yn Atodiad 5.

**Ysgol Gynradd Baden Powell**

25. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 11 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Baden Powell i drafod y cynigion ar gyfer eu hysgol a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

26. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd y cynnig yn syniad da gan y byddai'n rhoi lle i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ddysgu mewn amgylchedd tawel.*
- *Bydd y cynnig yn helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol.*
- *Roedd rhai pryderon y gallai'r disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol wrthdaro â'i gilydd rhywfaint.*

27. Ar y cyfan, roedd 10 disgybl yn hoffi'r cynnig, ac roedd un disgybl ddim yn ei hoffi.

**Ysgol Gynradd y Tyllgoed**

28. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 10 disgybl yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed i drafod y cynigion ar gyfer eu hysgol a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

29. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- *Byddai'r cynnig yn dda gan y byddai'n helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol.*
- *Roedd hi'n dda cefnogi plant eraill.*
- *Roedd rhai pryderon ynghylch mwy o draffig ar safle'r ysgol ac o'i gwmpas. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â'r amser y byddai'n ei gymryd i'r ddarpariaeth ddatblygu.*

30. Ar y cyfan, roedd chwech o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig, nid oedd dau yn ei hoffi ac roedd dau yn ei hoffi'n rhannol.

31. Cyfarfu swyddogion hefyd â grŵp bach o ddisgyblion o Ddosbarth Lles Ysgol Gynradd y Tyllgoed gan siarad am bethau maen nhw'n eu hoffi am eu dosbarth.

32. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- *Roedd y plant yn hoffi popeth am eu dosbarth.*
- *Roedd bod yn y dosbarth yn caniatáu iddynt ddod i'r ysgol bob dydd.*
- *Roedd ganddynt ffrindiau.*
- *Maen nhw'n gwneud yn dda iawn gyda'u gwaith ysgol.*
- *Roedden nhw'n hoffi eu hathrawon.*
- *Gwylio ffilmiau oedd eu hoff weithgaredd.*
- *Maen nhw wrth eu bodd yn mynd i'r ysgol nawr.*
- *Roeddent yn hoffi eu hystafell ddosbarth ond byddent yn hoffi eu gofod awyr agored eu hunain.*
- *Roedd bod yn y dosbarth yn ei gwneud hi'n haws gwneud gwaith.*
- *Hoffent gael mwy o staff a gofod tawel.*
- *Mae eu dysgu wedi gwella ers bod yn y dosbarth.*

**Ysgol Gynradd Herbert Thompson**

33. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 27 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

34. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd y cynnig yn syniad da gan y byddai'n helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael yr help sydd ei angen arnynt.*
- *Ni fyddai rhaid i blant sy'n byw yn yr ardal leol deithio mor bell ac ni fyddent yn ofni teithio ymhell i ffwrdd.*
- *Byddai'n cefnogi dysgu gan blant.*
- *Roedd pryderon ynghylch mwy o draffig ac y byddai angen gwneud gwaith i'r gampfa bocsio er mwyn gallu ei defnyddio.*

35. Ar y cyfan, roedd 18 o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig, nid oedd gan dri farn ac roedd pedwar yn ei hoffi'n rhannol.

**Ysgol Gynradd Lakeside**

36. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 16 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Lakeside i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

37. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd y disgyblion yn cefnogi'r cynnig, gan nodi y byddai'n gwneud i blant ag anghenion dysgu ychwanegol deimlo'n ddiogel ac yn gallu dysgu mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau wedi'u teilwra.*
- *Roedd y disgyblion yn hynod falch o'u dosbarth lles presennol.*
- *Gallai mwy o ddarpariaeth ar draws y ddinas helpu i leihau allyriadau carbon.*
- *Byddai'r cynigion yn lleihau amseroedd teithio i rai plant.*
- *Roedd pryderon am nad oes digon o leoedd, darpariaeth i blant hŷn, gallai rhai plant ei chael hi'n anodd ymdopi â newid, a thacsis yn dod i mewn i safle'r ysgol.*

38. Ar y cyfan, roedd 13 o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig ac roedd tri yn ei hoffi'n rhannol.

**Ysgol Gynradd Springwood**

39. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 14 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Springwood i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

40. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd yn syniad da cael mwy o leoedd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan y dylai pob disgybl gael addysg gyfartal.*
- *Mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd rheoli eu hemosiynau ac weithiau mae angen lle tawel arnyn nhw.*
- *Roedd yn syniad da bod rhai plant yn gallu dod i gael mwy o hwyl yn yr ysgol a theimlo'n ddiogel.*
- *Roedd pryderon efallai na fydd digon o le i chwarae amser cinio, byddai'n costio llawer o arian a gallai achosi pryder ychwanegol i rai disgyblion drwy orfod teithio ymhellach ar gyfer y ddarpariaeth hon.*

41. Ar y cyfan, roedd 11 o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig, nid oedd gan ddau farn ac roedd un yn ei hoffi'n rhannol.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

42. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 22 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

43. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- *Mae'r cynnig yn rhoi cyfle cyfartal o ran addysg i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol.*
- *Mae'n caniatáu i bawb ddysgu heb deimlo'n anghyfforddus.*
- *Mae pawb yn cael addysg yn y ffordd orau iddyn nhw.*
- *Mae'n dda i iechyd pobl ifanc yng Nghaerdydd ac yn helpu pobl i gael addysg lawn.*
- *Mae'n rhoi mwy o gyfleoedd i bobl sydd angen cymorth ychwanegol gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *A fydd 20 lle yn ddigon?*
- *Mae safle'r ysgol eisoes yn brysur.*
- *Bydd mwy o draffig.*
- *Bydd yn parhau i wahanu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol oddi wrth ddisgyblion eraill.*

44. Ar y cyfan, roedd 13 o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig, nid oedd gan dri farn ac roedd chwech yn ei hoffi'n rhannol.

**Ymatebion i sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad**

45. Mae’r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol.

46. Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion sy’n cynnal darpariaeth arbenigol, gan roi cymorth a chyngor ar benodiadau, yr amgylchedd dysgu a rheoli'r diwrnod dysgu.

47. Mae ysgolion sy'n newydd i gynnal y ddarpariaeth yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymweld â darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, ac i ymuno â fforymau dysgu proffesiynol gyda staff arbenigol sy'n gweithio mewn ysgolion eraill.

48. Y consensws gan ysgolion sy'n cynnal canolfannau adnoddau ar hyn o bryd yw bod y profiad yn gwella’r dysgu i bob disgybl, ac yn cryfhau ethos cynhwysol yr ysgol a'r gymuned ymhellach.

49. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth DPP ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynydd ADY, cyfarfodydd Cydlynydd ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol ar gyfer Penaethiaid a diweddariadau rheolaidd ar gyfer cyrff llywodraethu. Byddai’r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio’n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

50. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na chanolfan adnoddau arbenigol.

51. Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol.

52. Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

53. Mae angen darpariaeth arbenigol fwy lleol i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn eu hardal leol. Mae'r cynigion wedi cael eu cyflwyno er mwyn cynyddu nifer a dosbarthiad lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar draws y ddinas.

54. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn y cyfnod oedran cynradd yn cynyddu nifer gyffredinol y lleoliadau ar gyfer lleoedd iechyd a lles emosiynol o 90 lle i 114 lle o fis Medi 2024.

55. Byddai'r newid arfaethedig yn y cyfnod oedran uwchradd yn cynyddu nifer y lleoliadau ar gyfer lleoedd iechyd a lles emosiynol gan 20 o fis Medi 2024.

56. Mae’r galw am leoedd yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus a bydd cynigion pellach yn cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn.

57. Cyflwynwyd y cynigion i fynd i'r afael â'r angen am fwy o ddarpariaeth arbenigol, i ddiwallu anghenion plant yn ogystal â lleihau'r pwysau ar ysgolion.

58. Mae ysgolion Caerdydd yn hynod gynhwysol, ac mae arfer rhagorol ar waith i ddiwallu anghenion y mwyafrif helaeth o blant, ond mae'n hanfodol cynyddu capasiti i ddarparu ar gyfer y nifer fach ond cynyddol o blant sydd angen mynediad at leoliad mwy arbenigol.

59. Mae gan bob ysgol gyllideb cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddangosol i ddiwallu anghenion plant yn yr ysgol brif ffrwd. Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei nodi, ac i nodi a darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen er mwyn iddo ddysgu a ffynnu.

60. Bydd pob un o’r Canolfannau Adnoddau Arbenigol arfaethedig yn darparu ar gyfer bechgyn a merched. Bydd datblygu darpariaeth ysgol arbennig gynradd newydd ac estynedig yn sicrhau cyfleusterau priodol i ganiatáu darpariaeth deg i fechgyn a merched.

61. Mae amrywiaeth eang o arferion rhagorol wedi'u sefydlu neu eu datblygu yn ysgolion Caerdydd fel rhan o fenter Llywodraeth Cymru i hyrwyddo 'dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol'.

62. Mae cymarebau staff, sgiliau a phrofiad staff yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob lleoliad ac mae ystod o wasanaethau arbenigol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y gellir diwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol.

63. Mae'r cynigion yn caniatáu ar gyfer cofrestru deuol lle ystyrir mai hwn yw'r opsiwn mwyaf priodol. Bydd opsiwn hefyd i ddisgyblion gael eu gosod ar gofrestr yr ysgol sy'n cynnal y ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol.

64. Mae'r gofynion llety i ganiatáu ar gyfer sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol wedi'u cytuno mewn egwyddor gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol. Mae'r Cyngor wedi llunio manyleb ar gyfer canolfannau adnoddau y gellir ei haddasu ar gyfer gwahanol leoliadau a bydd yn gweithio gydag ysgolion i nodi mannau priodol yn yr adeiladau presennol gyda buddsoddiad priodol i sicrhau bod cyfleusterau'n addas at y diben.

65. Gall y Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Herbert Thompson gael ei lletya yn yr adeilad a arferai gael ei ddefnyddio fel clwb bocsio, yn dilyn buddsoddiad i drosi'r adeilad. Fel arall, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith dichonoldeb sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, efallai y bydd y ganolfan yn cael ei gosod mewn cyfleuster adeilad newydd yn lle'r adeilad hwn. Cydnabyddir y byddai angen gwaith sylweddol i ddatblygu neu ddisodli'r llety hwn, ac i gydnabod hyn, cynigir y dylid dechrau'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2025.

66. Nodir y pryderon a godwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside. Cydnabyddir nad yw derbyn mwy na 12 o ddysgwyr i'r dosbarth ar hyn o bryd yn briodol o gydnabod oedran ac anghenion y plant a lefel y cymorth sydd ei angen. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan dau ddosbarth o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lleoliad yn Ysgol Cynefin (a elwid gynt yn Ysgol Arbennig The Court).

67. Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ehangu Ysgol Cynefin a fydd yn cefnogi rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd pan fydd yr ehangu wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd yr ehangu hwn yn lleihau'r pwysau ar Ddosbarthiadau Lles a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol Caerdydd, gan alluogi Ysgol Gynradd Lakeside i dderbyn 8 dysgwr fesul dosbarth yn ôl ei bwriad, yn gyson â'r model sefydledig ledled y ddinas.

68. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside i sicrhau bod y ddarpariaeth o safon uchel yn cael ei chynnal, gan gynnwys ystyried anghenion dysgwyr o ran lle, cyllid, staffio ac adnoddau.

69. Croesewir cefnogaeth Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch i sefydlu a chynnal Dosbarth Lles ar gyfer dysgwyr oed cynradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth wedi cefnogi nifer o blant i barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg yr oedd eu hanghenion yn gofyn am y ddarpariaeth benodol hon.

70. Fodd bynnag, cydnabyddir bod nifer o faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r sefydliad arfaethedig, gan gynnwys pryderon ynghylch

sefydlu dosbarth sengl i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

71. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion sydd wedi codi a bydd yn parhau i weithio gyda'r ysgol i ddatrys a mynd i'r afael ag unrhyw faterion parhaus i gefnogi'r dysgwyr sydd eisoes wedi cofrestru yn yr ysgol ac sydd wedi'u lleoli yn ei Dosbarth Lles.

72. Bydd y pwyntiau a godwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu gwerthuso ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer darparu lleoedd iechyd a lles emosiynol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd.

73. Mae datblygu gweithlu arbenigol yn ganolog i wella gwybodaeth a sgiliau anghenion dysgu ychwanegol y gweithlu cyfrwng Cymraeg cyfan mewn ysgolion, a chyfleoedd datblygu pellach i staff sy'n gweithio mewn rolau cymorth ym maes anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn sicrhau eu bod yn hygyrch i staff o'r sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae Seicolegydd Addysg ac athrawon arbenigol yn gweithio'n agos gyda'r ystafell ddosbarth a staff mewn ysgolion, gan roi cyngor, hyfforddiant a chymorth iddynt. Maent yn darparu ystod o gyrsiau y gellir eu cyflwyno i'r ysgol gyfan, i grwpiau o staff ac i unigolion.

74. Amlinellir manylion sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y staff addysgu/cymorth sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) mabwysiedig (Deilliant 7). Mae'r Cyngor wedi sefydlu is-bwyllgor o'i Fforwm Addysg Gymraeg i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn cynlluniau gweithredu a thargedau Deilliant 7. Gellir gweld copi o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn www.caerdydd.gov.uk.

75. Mae Tîm Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i weithio ochr yn ochr â swyddogion y Tîm Derbyn i Ysgolion a theuluoedd i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r ddarpariaeth a'r cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r wybodaeth a roddir yn y llyfryn derbyniadau yn rheolaidd, nodi'r opsiynau cymorth ar wefan y Cyngor a thrwy sefydlu Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu is-bwyllgorau Fforwm Addysg Gymraeg i ganolbwyntio ar Hyrwyddo a Marchnata addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gadw staff yn y sector, sy'n ceisio sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael i bob angen.

76. Cydnabyddir y gallai rhai plant sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg orfod teithio ymhellach i ysgol cyfrwng Cymraeg nag i ysgol cyfrwng Saesneg gan fod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd.

77. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n amlinellu'r dull hirdymor o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

78. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O fewn eu cynllun, mae'n rhaid iddyn nhw osod targed deng mlynedd ar gyfer y cynnydd disgwyliedig ym mhlant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru yw bod rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Ar hyn o bryd, oddeutu 18% yw'r ffigur hwn.

79. Mae Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r targed 25-29% fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwyso uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig.

80. Ni fyddai nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i gefnogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg i'r graddau fyddai'n cyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

81. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg bydd pob plentyn yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

82. Mae'r CSCA a gymeradwywyd yn ymrwymo i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oed Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio.

83. Mae Deilliant 6 y CSCA yn ymrwymo i gynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

84. Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliant 6 CSCA canlynol – Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

85. Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr ynghylch darpariaeth briodol ar gyfer eu plentyn. Bydd ysgol y plentyn ac arbenigwyr sy'n gweithio gyda'r ysgol yn esbonio'r opsiynau i rieni ac yn eu cefnogi i ymweld â'r lleoliadau, fel y gallant lunio barn wybodus ynghylch y cam nesaf sydd orau i'w plentyn.

86. Cydnabyddir y gallai plant sy'n cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg orfod teithio ymhellach gan fod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd.

87. Fel y nodir yn y CSCA, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu nifer a dosbarthiad lleoedd anghenion dysgu ychwanegol ar draws y sector, monitro ceisiadau am drosglwyddo o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg i rai cyfrwng Saesneg a datblygu gwell dealltwriaeth o bryderon ynghyd â sicrwydd a chymorth priodol gyda'r bwriad o ailystyried aros.

88. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r newidiadau arfaethedig ond yn effeithio ar ddysgwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol ar yr adeg y cânt eu derbyn i leoliad arbenigol.

89. Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi trefniadau pontio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau yn dibynnu ar angen unigol ac yn cael eu symud ymlaen yn ôl yr angen. Mae ysgolion presennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bodoli eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

90. Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant rhwng yr ysgol a'r cartref.

91. Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gweler polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk

92. Mae'r Cyngor yn darparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

93. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref i ddisgyblion cymwys sydd wedi'u cofrestru mewn canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd angen newid cyfleusterau gollwng a chasglu ar safle pob lleoliad ysgol sydd â galw newydd neu fwy am gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr. Byddai angen i'r ardaloedd hyn ddarparu ar gyfer nifer briodol o gerbydau a allai fod oddeutu un tacsi ar gyfer cyfartaledd nodweddiadol o 3 disgybl. Ar gyfer y cynigion hyn, byddai hyn yn golygu rhwng tri a saith lle car yn fras, er y gallai bysus mini fod yn addas yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, lleoliadau'r cartref a chydlynu'r llwybrau.

**Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y cynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth**

94. Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd chwe ymateb ffurfiol, gan gynnwys pump drwy e-bost ac un drwy Arolwg

Rhanddeiliaid Ehangach ar-lein y Cyngor. Derbyniodd y Cyngor 56 o ymatebion pellach i'r Arolwg Rhanddeiliaid Ehangach, ac un ymateb arall ar e-bost.

95. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:

- Estyn
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Albany
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas
- Pennaeth Ysgol Gynradd Coed Glas
- Corff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Gynradd Greenway
- Ymateb ar y cyd gan Gorff Llywodraethu, Pennaeth, Dirprwy Bennaeth a Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgol Gynradd Severn

96. Roedd ymateb Estyn yn nodi ei farn bod y cynnig yn debygol, fan lleiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

97. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 8.

98. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb trwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.

99. Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg rhanddeiliaid ehangach gan randdeiliaid a nododd eu bod yn rhieni/gwarcheidwaid presennol (27) ac aelodau staff (21).

O'r chwe ymateb a dderbyniwyd drwy e-bost, roedd pump yn ymatebion ffurfiol ac roedd un gan randdeiliad a nododd ei fod yn rhiant.

100. Mae modd gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan bob rhanddeiliad, ac arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd, yn Atodiad 9.

101. Mae dadansoddiad cryno o'r ymatebion a gafwyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 10.

**Safbwyntiau a fynegwyd**

**Arolwg Rhanddeiliaid Ehangach**

102. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid ar y newidiadau arfaethedig fel y'u nodir ym mharagraff 3 ac a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor, ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad a thrwy e-bost.

103. O'r 57 ymateb a gafwyd drwy'r Arolwg Rhanddeiliaid Ehangach, roedd 49 yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, nid oedd chwech o blaid ac nid oedd gan ddau farn y naill ffordd na'r llall.

104. Cafodd y cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol ei gefnogi

gan 47 o ymatebwyr, nid oedd pedwar o blaid ac roedd chwech heb farn y naill ffordd na'r llall.

105. Cafodd y cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol ei gefnogi gan 44 o ymatebwyr, nid oedd dau o blaid ac roedd 11 heb farn y naill ffordd na'r llall.

106. Cafodd y cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol ei gefnogi gan 49 o ymatebwyr ac roedd wyth heb farn y naill ffordd na'r llall.

.

107. Roedd y rhesymau dros beidio â chefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Yr angen am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth ychwanegol a/neu ddarpariaeth Awtistiaeth i ateb y galw ledled y ddinas.
- Bydd lleoli'r ddarpariaeth yn nes at ble mae plant yn byw yn helpu i leihau pellteroedd teithio i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Bydd dosbarthiad mwy cyfartal o leoedd yn caniatáu i blant gael eu haddysgu o fewn eu cymuned/ardal eu hunain sy'n bwysig i deuluoedd sy'n llai cyfforddus yn ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol mewn ardal anghyfarwydd.
- Mae'n bwysig bod gan blant niwrowahanol leoedd addysg priodol i gefnogi twf a datblygiad.

108. Er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth, roedd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- mae angen ystyried y manylion wrth sefydlu a chynnal darpariaeth arbenigol o fewn ysgol brif ffrwd a'r goblygiadau i bob dysgwr, aelod o staff a rhieni.
- trefniadau staffio arfaethedig a sut bydd staff yn cael eu cefnogi.
- trefniadau'r cwricwlwm.
- ni fydd y newidiadau arfaethedig yn ddigon i ateb y galw am leoedd ar draws y ddinas.
- mae angen adnoddau ychwanegol ar bob ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.
- pryderon ynghylch ariannu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol i blant yn y brif ffrwd.
- sut byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu.
- darparu llety addas gan gynnwys mannau tawel a gofod awyr agored priodol.
- lefelau staffio priodol a staff profiadol/hyfforddedig addas sy'n deall ac yn gallu cefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth.
- cymarebau disgyblion/staff priodol i ddiwallu anghenion disgyblion.
- yr angen i sicrhau bod digon o leoedd mewn mannau uwchradd yn unol â'r galw cynyddol ar lefel gynradd.

- dylai Ysgol Gynradd Coed Glas gynnal canolfan Awtistiaeth gan nad oedd gan yr ysgol y cyfleusterau i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu cymhleth.
- mae gostyngiad yn Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) Ysgol Gynradd Coed Glas o 75 i 60 yn hanfodol i lwyddiant y ganolfan newydd yn yr ysgol a chymuned yr ysgol gyfan.
- yr angen i ehangu'r ddarpariaeth parcio staff yn Ysgol Gynradd Coed Glas.
- yr angen i sicrhau digon o arian am adnoddau mewn unrhyw ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol newydd.
- problemau parhaus gydag adeiladau ysgol a chynnal a chadw.
- yr angen am ddarpariaeth briodol i ddiwallu ystod o anghenion niwrowahanol.
- yr angen am ddarpariaeth ychwanegol o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- sut bydd y cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion presennol yn cael eu diogelu?

109. Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau amgen ar gyfer darparu lleoedd anghenion dysgu ychwanegol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth.

110. Roedd y rhain yn cynnwys:

- byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul yn addas i gynnal darpariaeth.
- dylid ystyried sefydlu darpariaeth yn Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen.
- adeiladu ysgol i blant ag awtistiaeth ar ochr ddwyreiniol y ddinas, yn debyg i Ysgol y Deri.
- dylid ystyried sefydlu darpariaeth mewn ysgolion ffydd.

**Cynrychiolaeth disgyblion**

111. Cyfarfu swyddogion â disgyblion Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn ar-lein/wyneb yn wyneb i ofyn am eu barn ar y newidiadau arfaethedig.

112. Cafodd y sesiynau eu hwyluso gan ddefnyddio rhaglen ryngweithiol ‘Mentimeter’ a oedd yn caniatáu i’r disgyblion roi eu barn a safbwyntiau gan ddefnyddio arolygon byw, cymylau geiriau a chwestiynau. Gellir gweld nodiadau o'r sesiynau yn Atodiad 5.

**Ysgol Gynradd Coed Glas**

113. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 9 disgybl yn Ysgol Gynradd Coed Glas i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

114. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd yn syniad da fel y gall plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael yr help sydd ei angen arnynt.*

- *Bydd gan fwy o blant ag anghenion dysgu ychwanegol ffordd well o ddysgu.*

- *Byddai'n braf gweld plant newydd yn yr ysgol a gwneud mwy o ffrindiau.*

- *Byddai mwy o oedolion i helpu pawb.*

- *Mae'n dda ein bod ni'n meddwl am bobl eraill; Mae'n beth braf i'w wneud a dyna beth mae ein hysgol yn ei wneud.*

- *Roedd pryderon am sut y byddai'r disgyblion yn ymdopi â newid; efallai y byddant yn teimlo'n ofnus ac yn cymryd peth amser i setlo, efallai y byddant yn teimlo'n wahanol ac yn ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau, efallai y byddant yn nerfus ac ni fyddant yn adnabod unrhyw un.*

115. Ar y cyfan, roedd wyth disgybl yn hoffi'r cynnig ac roedd un yn ei hoffi'n rhannol.

**Ysgol Gynradd Greenway**

116. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 22 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Greenway i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

117. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd yn dda y byddai plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddysgu.*

- *Byddai cyfleoedd i wneud ffrindiau newydd.*

- *Heb leoedd addas, byddai plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ei chael hi'n anodd.*

- *Eisiau croesawu cymaint o blant â phosibl; Gallai fod ychydig yn fwy prysur yn yr ysgol, ond nid oedd hyn yn broblem fawr.*

- *Roedd pryderon ynghylch mwy o draffig ac ysgol brysurach.*

118. Ar y cyfan, roedd 14 o ddisgyblion yn hoffi'r cynnig, nid oedd un yn ei hoffi, nid oedd gan bedwar farn ac roedd tri yn ei hoffi'n rhannol.

**Ysgol Gynradd Severn**

119. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 13 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Severn i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.

120. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- *Roedd yn dda bod gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol le tawel i ddysgu ynddo os oedd ganddynt broblemau gyda dicter neu os oeddent yn teimlo nad oeddent yn gwneud yn ddigon da yn y dosbarth.*

- *Bydd yn ddefnyddiol oherwydd bydd lleoedd i blant ddysgu, bydd hefyd yn rhoi'r hawl i addysg iddynt ac os yw'n agosach bydd yn gadael iddynt gael awyr iach.*

- *Gellir addysgu plant tra'u bod yn gyfforddus yn yr ysgol. Gallant rannu eu teimladau pan fyddant eisiau heb orfod petruso. Maen nhw'n gallu gwneud ffrindiau gyda phlant sy'n debyg iddyn nhw.*

- *Gall byw ymhellach i ffwrdd olygu bod plant yn hwyr i'r ysgol.*

- *Roedd pryderon y gallai rhai disgyblion weld newid yn anodd, diffyg staff addysgu arbenigol a mwy o draffig.*

121. Ar y cyfan, roedd wyth disgybl yn hoffi'r cynnig, nid oedd gan un farn ac roedd dau yn ei hoffi'n rhannol.

**Ymateb i'r sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad**

122. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth.

123. Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion sy'n cynnal darpariaeth arbenigol, gan roi cymorth a chyngor ar benodiadau, yr amgylchedd dysgu a rheoli'r diwrnod dysgu.

124. Mae ysgolion sy'n newydd i gynnal y ddarpariaeth yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymweld â darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, ac i ymuno â fforymau dysgu proffesiynol gyda staff arbenigol sy'n gweithio mewn ysgolion eraill.

125. Y consensws gan ysgolion sy'n cynnal canolfannau adnoddau ar hyn o bryd yw bod y profiad yn gwella'r dysgu i bob disgybl, ac yn cryfhau ethos cynhwysol yr ysgol a'r gymuned ymhellach.

126. Mae cymarebau staff, sgiliau a phrofiad staff yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob lleoliad ac mae ystod o wasanaethau arbenigol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y gellir diwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol.

127. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth DPP ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynydd ADY, cyfarfodydd Cydlynydd ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol ar gyfer Penaethiaid a diweddariadau rheolaidd ar gyfer cyrff llywodraethu. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

128. Mae canolfannau Anghenion Dysgu Cymhleth yn darparu ar gyfer plant ag anawsterau dysgu difrifol ac yn darparu cwricwlwm arbenigol. Mae canolfannau sy'n benodol i awtistiaeth yn darparu ar gyfer plant y mae eu sgiliau dysgu'n isel ac sydd â gallu cymedrol i uchel, a'r nod yw galluogi dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm prif ffrwd cymaint â phosibl, wedi'i ategu gan ymyriadau a chymorth mwy arbenigol yn ôl yr angen. Mae'r Cyngor yn hwyluso rhannu ymarfer o ysgol i ysgol er mwyn llywio’r gwaith o ddatblygu cwricwla priodol.

129. Mae angen darpariaeth arbenigol fwy lleol i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn eu hardal leol. Mae'r cynigion wedi cael eu cyflwyno er mwyn cynyddu nifer a dosbarthiad lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar draws y ddinas.

130. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu 60 o leoedd anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth oedran cynradd arbenigol parhaol ychwanegol o fis Medi 2024.

131. Mae’r galw am leoedd yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus a bydd cynigion pellach yn cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn.

132. Mae'r galw am leoedd anghenion ychwanegol yn cael eu hadolygu'n barhaus ac mae trafodaethau’n cael eu cynnal yn barhaus gydag ysgolion ynghylch anghenion disgyblion a sut y gellir bodloni'r rhain orau.

133. Mae gan bob ysgol gyllideb cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddangosol i ddiwallu anghenion plant yn yr ysgol brif ffrwd. Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei nodi, ac i nodi a darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen er mwyn iddo ddysgu a ffynnu.

134. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion mewn perthynas â'r pwysau presennol ar gyllidebau ysgolion, mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol a'r gyllideb ehangach.

135. Mae'r gofynion llety i ganiatáu sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol wedi cael eu cytuno mewn egwyddor gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol. Mae'r Cyngor wedi llunio manyleb ar gyfer canolfannau adnoddau y gellir ei haddasu ar gyfer gwahanol leoliadau a bydd yn gweithio gydag ysgolion i nodi mannau priodol yn yr adeiladau presennol gyda buddsoddiad priodol i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas at y diben.

136. Mae cymarebau staff, sgiliau a phrofiad staff yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob lleoliad ac mae ystod o wasanaethau arbenigol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y gellir diwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol.

137. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r cydbwysedd gofynnol rhwng darpariaeth gynradd ac uwchradd a chyflwynir cynigion ar gyfer lleoedd ychwanegol ar lefel uwchradd yn ôl yr angen.

138. Cydnabyddir barn Corff Llywodraethu a Phennaeth Coed Glas, mai sefydlu canolfan Awtistiaeth fyddai'r dewis a ffefrir ar gyfer yr ysgol.

139. Cyfrifir Nifer Derbyn Cyhoeddedig ysgol yn unol â'r canllawiau Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru ac mae'n uniongyrchol gysylltiedig â'r llety sydd ar gael a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio. Pe bai'r cynnig ar gyfer sefydlu ail ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn cael ei ddatblygu, byddai asesiad capasiti diweddaredig yn cael ei gynnal. Byddai hwn yn cynnwys ystyried gofynion llety'r ganolfan newydd a'r defnydd o'r llety sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau ysgol brif ffrwd yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu trafodaethau gyda'r ysgol ynghylch nifer derbyn priodol.

140. Mae llawer o blant niwrowahanol yn cael eu cynnwys yn llwyddiannus yn eu hysgol leol ac yn gallu dysgu a ffynnu yn yr amgylchedd hwn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod digon o leoedd i ddiwallu anghenion y nifer fach o ddysgwyr niwrowahanol sydd ag anghenion mwy cymhleth, a allai fod angen lleoliad mwy arbenigol er mwyn dysgu a ffynnu.

141. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n amlinellu'r dull hirdymor o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

142. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O fewn eu cynllun, mae'n rhaid iddyn nhw osod targed deng mlynedd ar gyfer y cynnydd disgwyliedig ym mhlant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru yw bod rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Ar hyn o bryd, oddeutu 18% yw'r ffigur hwn.

143. Mae Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r targed 25-29% fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwyso uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig.

144. Ni fyddai nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i gefnogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg i'r graddau fyddai'n cyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

145. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg bydd pob plentyn yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

146. Mae'r CSCA a gymeradwywyd yn ymrwymo i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir

ar oed Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio.

147. Mae Deilliant 6 y CSCA yn ymrwymo i gynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

148. Mae’r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i’r Deilliant 6 CSCA canlynol – Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

149. Mae'r Cyngor a holl ysgolion Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd dysgu i bob dysgwr yn flaenoriaeth.

150. Mae’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda chyrff llywodraethu a Phenaethiaid i sicrhau bod y safonau’n uchel, yr addysgu’n dda a’r arweinyddiaeth a’r llywodraethiant yn gryf.

151. Mae safonau yn yr ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynigion yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

152. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgolion i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgolion i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

153. Byddai’r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio’n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

154. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i ystyried yr holl opsiynau ar gyfer datblygu lleoliadau newydd yn ôl yr angen.

155. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r newidiadau arfaethedig ond yn effeithio ar ddysgwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol ar yr adeg y cânt eu derbyn i leoliad arbenigol.

156. Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi trefniadau pontio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau yn dibynnu ar angen unigol ac yn cael eu symud ymlaen yn ôl yr angen. Mae ysgolion presennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy’n bodoli eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

157. Fel yr amlinellir ym mharagraff 93, bydd angen newid cyfleusterau gollwng a chasglu ar safle pob lleoliad ysgol sydd â galw newydd neu fwy am gerbydau sy’n darparu cludiant i ddysgwyr. Byddai angen i'r ardaloedd hyn ddarparu ar gyfer nifer briodol o gerbydau a allai fod oddeutu un tacsi ar gyfer cyfartaledd nodweddiadol o 3 disgybl. Ar gyfer y cynigion hyn, byddai hyn yn golygu rhwng tri a saith lle car yn fras, er y gallai bysus mini fod yn addas yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, lleoliadau’r cartref a chydlynu’r llwybrau

158. Yn Ysgol Gynradd Coed Glas, byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer cludiant ysgol i ddarparu ar gyfer 7 tacsi (rhagfynegiad) mewn lleoliad cyfleus a diogel ger mynedfa'r adeilad. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu’r cyfleusterau presennol.

159. Byddai angen cyfyngiadau traffig penodol ar ffyrdd cyfagos i Ysgol Gynradd Coed Glas er mwyn gwella'r problemau diogelwch ffyrdd presennol gan gynnwys parcio amhriodol. Byddai mesurau diogelwch i gerddwyr, gan gynnwys darparu croesfannau newydd, yn gwella'r sefyllfa ymhellach. Byddai trefniadau parcio staff hefyd yn cael eu hadolygu a byddai swyddogion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ymgorffori hyn mewn Cynllun Teithio diwygiedig ar gyfer yr ysgol.

**Trefniadau Derbyn**

160. Does dim cynlluniau i newid polisi’r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn.

161. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas wedi gofyn am ystyried gostwng ei Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 75 i 60 lle. Byddai ailasesiad o gapasiti'r ysgol, a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig a gyfrifir, yn cael ei gynnal pan fydd y newidiadau yn llety’r dysgwyr prif ffrwd yn cael eu cadarnhau. Byddai unrhyw newid i'r nifer hon yn destun ymgynghoriad pellach.

162. Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn wedi’u cyhoeddi yn Llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk.

163. Y Cyngor sy’n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i’w cyfeiriad cartref â phosibl, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

164. Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi’r Cyngor ar gludo plant rhwng yr ysgol a’r cartref.

165. Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â’r un meini prawf sy’n berthnasol ledled Caerdydd. Gweler polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk

166. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

167. Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

**Ymgynghori ag Aelodau Lleol**

168. Mae darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ledled y ddinas, ac ymgynghorwyd ag aelodau fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus.

**Ystyriaethau Craffu**

169. Bydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ystyried y cynigion ar 12 Mawrth 2024.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

170. Bodloni'r galw cynyddol am leoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ac Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth.

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

171. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

172. Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

173. Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

174. Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn clustnodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

175. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ‘Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog’ gan gynnwys tyfu’r sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

176. Yn sail i'r weledigaeth hon mae'r egwyddorion canlynol:

- Cymhwyso egwyddorion y ‘cymdogaethau 15-munud’ i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn Gymraeg neu Saesneg gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni’r plentyn.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

177. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

178. Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

179. Mae’r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i’r Deilliant 6 CSCA canlynol – Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

180. Mae’r Cyngor yn gweithio’n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae’r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a’r rhai sy’n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni’r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni’r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

181. Mae’r Cyngor yn monitro’r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

**Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

182. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio.

183. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

184. Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

185. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ystod eang o newidiadau mewn darpariaeth ADY, ac aildrefnu’r ddarpariaeth ADY, ledled Caerdydd, ac nid yw ynddo'i hun yn ymrwymo'r Awdurdod i wariant yn y dyfodol felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol cyfalaf yn deillio yn uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, ar ôl darparu’r papur opsiynau terfynol bydd angen cynnal gwerthusiad ariannol llawn.

186. Mewn cyfnod lle mae angen blaenoriaethu cynlluniau’r dyfodol, mae angen i'r cynlluniau a nodwyd yn y papur hwn aros o fewn cwmpas strategol, bod yn fforddiadwy o fewn y cyd-destun buddsoddi mewn ysgolion ehangach a sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi’i nodi i ariannu'r rhaglen. Wrth i anghenion a gofynion gynyddu, rhaid gwneud pob penderfyniad gan ddeall mai dyma’r defnydd gorau ar adnodd cyfyngedig i sicrhau’r effaith orau bosibl ar ddeilliannau addysgol.

**<u>Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)</u>**

187. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys darpariaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (neu anghenion dysgu ychwanegol).

188. Gall awdurdod lleol wneud cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys gwneud “newidiadau a reoleiddir” i ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, o dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynigion a nodir yn yr adroddiad gyfystyr â “newidiadau a reoleiddir” a rhaid eu hystyried gan roi sylw i ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sy'n nodi’r ffactorau i'w hystyried mewn perthynas â gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, y gofynion a'r canllawiau cyfreithiol.

189. Pan gynigir cynyddu capasiti ysgol, rhaid i'r Cyngor ystyried y dystiolaeth o'r angen/galw am leoedd ychwanegol yn yr ardal honno ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol (a natur grefyddol / y rhyw a dderbynnir os yw'n berthnasol). Bydd angen i'r Cabinet fod yn fodlon bod yr holl ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried yn briodol ynghlwm â'r cynigion.

190. Cyn cyhoeddi ei gynigion, rhaid i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar ei gynigion yn unol ag adran 48 y Ddeddf a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi a dosbarthu adroddiad ymgynghori i bob parti â diddordeb (a restrir yn y Cod) sy'n:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion;
- Ymateb i'r rhain drwy roi esboniad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol;
- Nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- Ymateb i sylwadau Estyn drwy roi esboniad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol.

191. Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Cabinet ynghylch sut i fwrw ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r status quo neu ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ailymgynghori arnynt.

192. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru). Mae'r dyletswyddau yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i (1) gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg crefydd neu gred.

193. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg, gan ystyried effaith ei benderfyniad ar y Gymraeg.

194. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (WG42004 Cymru Fwy Cyfartal, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 (llyw.cymru) a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

## Goblygiadau AD

195. Bydd unrhyw gynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau. Anogir y Cyrff Llywodraethu i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â’r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

196. Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol, lle bo’u hangen.

197. Lle mae’r Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu’r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

198. Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Cyrff Llywodraethu i fynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar gyfer iechyd a lles emosiynol ac anghenion cymhleth/awtistiaeth a sefydlu a oes angen adnoddau staffio.

## Goblygiadau Eiddo

199. Mae'r Cyngor yn berchen ar bob un o safleoedd yr ysgol sy'n destun y newidiadau arfaethedig, ac nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, nac ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth o fis Medi 2024. Bwriedir darparu'r rhain yn yr adeiladau presennol.

200. Lle bo unrhyw faterion rheoli eiddo, trafodion neu brisiadau eiddo perthnasol yn cael eu cynnal gan y Cyngor i gyflwyno unrhyw gynigion, dylid gwneud hynny yn unol â phroses Rheoli Asedau'r Cyngor ac mewn ymgynghoriad ag Ystadau Strategol a gwasanaethau perthnasol.

## Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

201. Mae anghenion unigol disgyblion mewn Ysgolion Arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

202. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol i ddisgyblion er mwyn bod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i’r ysgol ar gyfer ysgolion Arbennig a CAAau  Ar ben hynny, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy / tair milltir i'r ysgol yn cael trafnidiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol.

203. Mae'r cynnydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig a CAAau ar draws y ddinas yn golygu nad oes disgwyl i wariant trafnidiaeth y tu allan i'r sir gynyddu, ac mae'r gost drafnidiaeth fesul dysgwr unigol yn debygol

o leihau. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd cynyddol o ddysgwyr cymwys, mae disgwyl o hyd y bydd risg o gostau trafnidiaeth uchel.

204. Bydd nifer y disgyblion sy'n parhau i ddefnyddio Cludiant i Ddysgwyr ar gyfer eu taith i'r ysgol yn debygol o gynyddu yn unol â'r duedd ar gyfer niferoedd cynyddol o ddisgyblion sydd angen lle mewn canolfannau adnoddau arbenigol.

205. Bydd angen gwella a/neu ehangu cyfleusterau gollwng a chasglu, neu fydd angen cyfleusterau newydd addas, ar safle pob lleoliad ysgol sydd â galw newydd neu fwy am gerbydau sy’n darparu cludiant i ddysgwyr. Byddai angen i'r ardaloedd hyn ddarparu ar gyfer nifer briodol o gerbydau a allai fod oddeutu un tacsi ar gyfer cyfartaledd nodweddiadol o 3 disgybl. Ar gyfer y cynigion hyn, byddai hyn yn golygu’n fras rhwng tri a saith lle car ar adegau gollwng a chasglu disgyblion. Mewn rhai achosion, gall bysus mini fod yn addas, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, lleoliadau cartref a llwybrau.

206. Yn Ysgol Gynradd Lakeside, byddai asesu cyfleusterau'r maes parcio presennol a'r trefniadau presennol yn galluogi dichonoldeb a nodi opsiynau posibl ar gyfer cyfleusterau gollwng a chasglu addas ar gyfer y trafnidiaeth ysgol bwrpasol (6 tacsi yn ôl y disgwyl) ac ar gyfer cerbydau rhieni/gofalwyr awdurdodedig, mewn lleoliad priodol, cyfleus a diogel.

207. Yn Ysgol Gynradd Coed Glas, byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer ar gyfer 7 tacsi disgwyliedig mewn lleoliad cyfleus a diogel ger mynedfa'r adeilad. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu’r cyfleusterau presennol.

208. Byddai angen cyfyngiadau traffig penodol ar ffyrdd cyfagos er mwyn gwella problemau diogelwch ffyrdd presennol gan gynnwys parcio amhriodol. Byddai mesurau diogelwch i gerddwyr, gan gynnwys darparu croesfannau newydd, yn gwella'r sefyllfa ymhellach. Byddai trefniadau parcio staff hefyd yn cael eu hadolygu a byddai swyddogion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ymgorffori hyn mewn Cynllun Teithio diwygiedig ar gyfer yr ysgol.

209. Yn Ysgol Gynradd Severn, mae angen cyfleusterau ar gyfer 7 tacsi disgwyliedig y gellid eu darparu naill ai ar y safle drwy ailddyrannu darpariaeth parcio staff bresennol neu ddefnyddio parcio oddi ar y stryd os yw'n briodol ac yn hyfyw ar gyfer darparu'r cludiant ysgol angenrheidiol yn ddiogel. Mae ymarfer dichonoldeb yn mynd rhagddo i werthuso opsiynau posibl.

**Asesiadau o Effaith**

210. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Sengl cychwynnol. Mae’r asesiad wedi’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad ac mae ynghlwm fel Atodiad 11. Mae hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

**Effaith Gymunedol**

211. Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y newidiadau arfaethedig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, y modd y defnyddir cyfleusterau’r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig.

212. Mae’r ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ysgol, ac mae gan rai sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r ysgol. Ceisiwyd barn yr ysgolion a’r gymuned ehangach ar unrhyw effeithiau posib fel rhan o'r ymgynghoriad ac unrhyw faterion a godwyd a’u hystyried yn llawn fel rhan o'r broses ddadansoddiad ar ôl ymgynghori.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn:

1. Awdurdodi swyddogion i fynd ati i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i:

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle newydd ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle newydd ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2025, o fewn adeiladau presennol neu adeilad newydd.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.

   - Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

   - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

2. Peidio â symud ymlaen â'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

3. Nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet cyn rhoi'r cynigion ar waith (cymeradwywyd yn argymhelliad 1) yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, yr ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i roi'r cynigion ar waith neu fel arall.

| **UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | **Melanie Godfrey** |
|---|---|
| | Dyddiad cyflwyno i swyddfa'r Cabinet |

*Dogfennau cefndirol:*
Cod trefniadaeth ysgolion 2013

*Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm:*

Atodiad 1 – Dogfennau Ymgynghori
Atodiad 2 – Dogfennau Ymgynghori Cryno
Atodiad 3 – Cofnod o Gyfarfodydd Ymgynghori gyda Chyrff Llywodraethu Ysgolion
Atodiad 4 – Cofnod o Gyfarfodydd Ymgynghori gyda Staff Ysgol
Atodiad 5 – Cofnod o Gyfarfodydd Ymgynghori gyda Chynrychiolwyr Disgyblion
Atodiad 6 – Cofnod o Gyfarfodydd Cyhoeddus
Atodiad 7 – Cofnod o sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ac ar-lein
Atodiad 8 – Ymatebion i'r Ymgynghoriad Ffurfiol
Atodiad 9 – Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd
Atodiad 10 – Dadansoddiad cryno o'r ymatebion a dderbyniwyd
Atodiad 11 – Asesiad Effaith Sengl